

HNC Diploma Construction and the Built Environment



Yn gwyno

Astudio tuag at gymhwyster a gydnabyddir gan y diwydiant mewn Adeiladu.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn adeiladu

... Hoffech gael cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol

... Ydych yn gweithio'n dda gydag astudiaeth ymarferol a damcaniaethol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Darperir y cymhwyster gan Pearson (Edexcel) a'i gyflenwi gan weithwyr diwydiant proffesiynol ar Gampws Pontypwl.

Mae'r modiwlau yn cynnwys Adeiladu a Cynnal a Chadw, Egwyddorion Dylunio Egwyddorion,



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur, Defnyddiau a Gwyddoniaeth ac Economeg.

Mae'r prosiectau cyfredol yn cynnwys dylunio a rheoli gwaith adnewyddu gwirfoddol mewn adeilad ysgol leol a dylunio a manylebu gwaith cynnal a chadw preswyl.

Mae'r sesiynau yn cynnwys cyfuniad o wersi, stiwdios dylunio ac arbrofi ymarferol, yn seiliedig ar senarios prosiect go iawn a phroblemau ffug. Ar ôl ei gwblhau, byddwch yn cyflawni'r Diploma HNC mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn ymuno â'r cwrs hwn, bydd arnoch angen:

2 Safon Uwch neu gyfwerth, neu
BTEC Lefel 3 gyda Gradd Teilyngdod ac uwch
Derbynnir NVQs a Diplomâu Crefft gyda lefel briodol o brofiad
Cyfweliad gyda thiwtor i drafod sefyllfaoedd personol ac asesu'r lefel o brofiad a gyflawnwyd eisoes mewn maes cyffelyb.

Disgwylir i chi ymrwymo'n llawn i'ch astudiaethau a gallu parhau â'ch astudiaethau yn eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Y dilyniant naturiol o'r HNC yw cwblhau'r HND, sy'n cynnwys 8 modiwl pellach a gwblheir dros amserlen debyg o 1-2 flynedd. Mae yna opsiwn i gyflawni dau fodiwl yn ystod gwyliau'r haf rhwng yr HNC a'r HND er mwyn caniatáu hyblygrwydd pellach i chi yn eich amserlenni.

Fel arall, gwneir cysylltiadau â phrifysgolion lleol a gellir cynnal trafodaethau i fynd ar drywydd graddau anrhydedd ar ôl cwblhau'r HNC yn llwyddiannus. Gellir gwneud yr un cynnig os ydych yn cwblhau'r HND.

Gwybodaeth Ychwanegol

Byddwch yn elwa o gael mynediad i liniadur er mwyn ymgyfarwyddo â'r broses o Gynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur.

Bydd angen i chi brynu pren mesur graddfa, pensiliau/ysgrifbinnau graffegol a deunydd

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

ysgrifennu cyffredinol

Rydym yn cynnig yr HNC dros 1-2 flynedd, gydag 8 modiwl i'w cwblhau. Mae dyddiau astudio ar brynhawniau Mawrth ac Iau yn eich galluogi i gwblhau'r cwrs o fewn blwyddyn, ond gellir addasu ar gyfer sefyllfaoedd personoledig

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

